

Tir halogedig yng Nghymru

Crynodeb Cyfeillion y Ddaear Cymru



Eln cefndir

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy i Gymru. Rydym yn rhan o'r sefydliad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol yn y DU sy'n rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf helaeth yn y byd, gyda dros 75 o sefydliadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir. Rydym yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru.

Crynodeb

Diolch i nifer gynyddol o [straeon cyfryngau](#), [rhaglenni dogfen](#), [podlediadau](#) a dramâu dogfen fel [Toxic Town Netflix](#), mae pobl yng Nghymru yn dod yn fwyfwy ymwybodol o ganlyniadau niweidiol ein hetifeddiaeth wenwynig. Ond, oherwydd diffyg cyllid, adnoddau ac arbenigedd, a materion eraill heblaw hynny, nid yw tir halogedig yn cael ei nodi, ei asesu a'i adfer. Dyna pam mae Cyfeillion y Ddaear yn galw am fwy o gyllid, gwybodaeth well, deddfwriaeth gryfach, a rheoleiddio gwell i ddiogelu iechyd pobl ac iechyd y byd naturiol.

Cwmpas a graddfa'r broblem halogiad

Mae graddfa problem halogiad Cymru yn bryderus o aneglur, er gwaethaf dros dair degawd o astudiaethau. Mor gynnar â 1988, nododd arolwg gan Uned Ymgynghorol Amgylcheddol Prifysgol Lerpwl ar gyfer y Swyddfa Gymreig 749 o safleoedd halogedig yng Nghymru¹. Erbyn 2013, nododd arolwg o awdurdodau lleol gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2013 fwy na [10,300 o safleoedd halogedig](#) – gan ganfod Benzo(a)pyren, plwm, ac arsenig mewn dros 60% o'r rhain.

Datgelodd ymchwiliad gan Gyfeillion y Ddaear Cymru yn 2025 dros 45,000 safle o halogiad posibl, yn cynnwys hen ardaloedd diwydiannol, safleoedd tirlenwi a chwareli². Ymhlith y safleoedd hyn mae o leiaf [1,300 o fwyngloddiau metel gwag](#) a dros 1,500 o safleoedd tirlenwi segur.³ Os caiff cyfraddau halogiad posibl a risg a ganfuwyd gan Gyfeillion y Ddaear eu hailadrodd ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, gallai hyn gyfateb i dros 90,000 o safleoedd posibl y mae angen eu dosbarthu a'u hymchwilio.

Mewn ymateb i [ymgyngoriad ar dir halogedig](#) Llywodraeth Cymru yn 2013, canfuwyd bod “Diffyg data ar lefel Genedlaethol yn rhwystro gallu Llywodraeth Cymru i ddeall maint a natur tir halogedig ledled Cymru yn sylweddol.” Mwy na degawd yn ddiweddarach, nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Mae'r Llywodraeth, gwneuthurwyr penderfyniadau lleol a'r cyhoedd yn haeddu

¹ Mae'r set ddata wedi ei gwneud yn ddigidol a gellir ei gweld yn yr [archifau cenedlaethol](#).

² Mae'r cyfanswm yn cynnwys y rhai a nodwyd gan yr 11 cyngor gyda Strategaethau Halogiad Tir sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n cynnwys canlyniadau'r cwmpasu cychwynnol a dau Awdurdod Lleol ychwanegol a ddarparodd y data hwn mewn ymateb i gais gan Gyfeillion y Ddaear.

³ Canfu data gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2021, a ddadansoddwyd gan Greenpeace, gemegau peryglus fel nwy mwstard a syanid wedi'u claddu o dan dros 1500 o safleoedd tirlenwi segur ledled Cymru.

cael gwybod cwmipas a graddfa halogiad yn y tir o dan eu traed – a bydd gweithredu effeithiol yn dibynnu ar ddarlun clir o'r problem.

Effelthiau a chostau halogiad

Iechyd: Mae ymchwil diweddar yn dangos bod [6% o'r boblogaeth yng Nghymru](#) yn byw ger tir sydd wedi'i halogi gan fwyngloddio metel hanesyddol, sy'n gysylltiedig â llygredd plwm. Mae lefelau gwenwynig o blwm wedi'u [canfod mewn wyau fferm](#). Nid oes unrhyw lefel o amlygiad i blwm y gwyddys ei bod heb effelthiau niweidiol. Gall lefelau uchel o blwm arwain at goma a marwolaeth, a gall lefelau is arwain at nam gwybyddol. Mae babanod a phlant ifanc yn arbennig o agored i niwed.

Mae cemegau am byth – sylweddau per- a polyffloroalkyl (PFAS) a Biffenylau Polychlorinedig (PCBau) – wedi'u cysylltu ag amrywiaeth o broblemau iechyd gan gynnwys risg uwch o ganser, niwed i'r iau, problemau atgenhedlu, a nam ar y system imiwnedd. O ddiwedd y 1960au i'r 1980au, pan ddaeth yn amlwg bod PCBau yn niweidiol, gollyngodd Monsanto y gwastraff gwenwynig hwn mewn chwareli segur mewn cylch 10-15 milltir o amgylch Caerdydd a Chasnewydd. Y llynedd, dangosodd podlediad y [BBC, Buried: the Last Witness](#) fod lefelau PCBau ger lle cafodd gwastraff gwenwynig ei ollwng yn y gorffennol gannoedd o weithiau'n uwch na'r lefelau cyfartalog.

Bywyd Gwylt: Mae ein hetifeddiaeth ddiwydiannol yn peri bygythiad parhaus i dda byw a bywyd gwylt, o fwyngloddiau plwm hanesyddol sydd wedi gwenwyno [ceffylau](#) a [gwartheg](#) yn ystod llifogydd, i gemegau am byth sy'n bio-chwyddo cadwyn fwyd. Canfu ymchwil diweddar fod PFAS ym mhob dyfrgi a brofwyd ledled Cymru a Lloegr, tra bod poblogaeth morfil danheddog y DU dan fygythiad o gwmpo yn y 100 mlynedd nesaf oherwydd llygredd PCB. Ar adeg pan fo 1 o bob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru, mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â llygredd cemegol cyn i ni golli mwy o rywogaethau.

Economaidd: Mae gan halogiad metelau trwm ganlyniadau economaidd sydd wedi'u dogfennu'n dda. Canfu ymchwil yng Nglasgow fod [plant a oedd wedi'u hamlygu i blwm](#) yn y groth wedi perfformio'n waeth yn eu harholiadau yn 16 oed, wrth i [astudiaeth Banc y Byd yn 2023](#) gysylltu pob microgram o blwm fesul decilitr o waed â gostyngiad o 2 bwynt IQ. I'r dros [200,000 o blant yn y DU](#) sy'n dioddef o halogiad plwm, gyda lefelau plwm yn y gwaed uwchlaw 5µg/dL, gallai hyn gyfateb i ostyngiad o leiaf 20% mewn oes mewn enillion. Mae Banc y Byd hefyd yn nodi bod clefydau cardiofasgwlaidd sy'n gysylltiedig â gwenwyno plwm yn costio 3.8% o gynnyrch domestig gros i wledydd incwm uchel.

Methiannau'r gyfundrefn tir halogedig

Strategaethau sydd wedi dyddio ac ar goll: Rhaid i Awdurdodau Lleol gyhoeddi Strategaeth Arolygu Tir Halogedig, y dylid ei diweddarau bob 5 mlynedd. Datgelodd ein hymchwil i strategaethau arolygu sydd ar gael yn gyhoeddus fod llawer o gynghorau'n methu'n rhannol neu'n llwyr â chyflawni'r gofyniad hwn ac yn dangos loteri cod post brawychus o weithredu a diffyg gweithredu.

Dim ond 15 allan o 22 o gynghorau yng Nghymru oedd i'w gweld yn meddu ar strategaeth o gwbl. O'r rhain, dim ond 4 cyngor (Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Sir Gaerfyrddin a Thorfaen) a gynigiodd strategaeth a ddiweddarwyd o fewn y pum mlynedd ddiwethaf. Roedd y strategaeth hynaf yn dyddio'n ôl dros ddau ddegawd, i 2002, tra bod y mwyaf diweddar wedi'i diweddarau yn 2024, gyda chyfartaledd y flwyddyn gyhoeddi yn 2014.

Diffyg arolygiadau: Efallai nad yw manylion union y broblem halogiad yn glir, ond mae tystiolaeth sylweddol o filoedd o safleoedd halogedig posibl ledled Cymru (gweler uchod). Canfu ein hymchwil fod rhai awdurdodau lleol – er enghraifft Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro – wedi nodi miloedd o ddarnau o dir a allai fod wedi'i halogi, ond eto maent yn dangos ychydig iawn o dystiolaeth o gynnydd wrth gategoreiddio neu asesu'r rhain ac nid oes ganddynt lawer o

gofnodion neu ddim cofnodion o gwbl ar eu cofrestr cyhoeddus. Nododd dadansoddiad diweddar gan BBC Wales o ddata tir a allai fod wedi'i halogi gan 11 cyngor yng Nghymru [698 o safleoedd 'risg uchel'](#) – gan gynnwys tir y credir ei fod yn cynnwys arsenig a phlwm. Nid yw 84% o'r rhain wedi'u profi gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu nad yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn wedi'i meintoli na'i nodi'n dryloyw, ac ni ellir cynnal adferiad tir.

Adnoddau annigonol, gweithredu annigonol: Heb gyllid digonol, mae'n anodd gweld sut y bydd cynghorau'n darparu adnoddau ar gyfer y broses dechnegol ac, yn aml, araf o gategoreiddio a phrofi, heb sôn am adferiad. Mewn ymateb i ymholiad y Pwyllgor Materion Cymreig eleni, nododd y [Grŵp Gwaith Halogiad Tir Cymru](#) "Mae Awdurdodau Lleol Cymru yn ymwybodol o lawer o ardaloedd o dir sydd angen asesiad Rhan 2A a phe bai darpariaeth ariannol ddigonol yn cael ei gwneud, byddent yn datblygu eu Strategaethau Arolygu ac yn cwblhau'r asesiadau hynny."

Canfu [ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru](#) yn 2016 fod 71% o'r gwaith adfer hyd yma wedi'i ariannu'n bennaf gan Gynllun Cronfa Cyfalaf Tir Halogedig Llywodraeth Cymru cyn iddo gael ei dynnu'n ôl yn 2010/11. Effaith y cymorth ariannol hwn yn crebachu yw gwthio cynghorau tuag at ddibynnu ar ddatblygwyr preifat i gynnal profion ac adferiadau, fel y nodwyd yn [adroddiad cwmpasu cynllun datblygu lleol Abertawe 2023-2038](#): "Mae adfer tir halogedig yn parhau i ddibynnu ar brosiectau ailddatblygu ac er bod rhai ailddatblygiadau wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw wedi bod yn bosibl gwirio bod adferiad neu gyfyngiant halogiad wedi'i gwblhau".

Data cyfyngedig a thryloywder gwael: Dylai pobl yng Nghymru gael hawl i wybod a ydynt yn byw ger safle gwenwynig a allai niweidio eu hiechyd. Ond ar hyn o bryd, mae gwybodaeth gyhoeddus yn anghyflawn ac yn anodd ei chael.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal cofrestr gyhoeddus o dir halogedig, gan nodi manylion unrhyw hysbysiadau adfer a gyflwynir ar ôl i safle gael ei nodi fel un halogedig. Dylai'r rhain fod ar gael i'r cyhoedd, naill ai ar-lein neu ar gopi caled. O'r 22 cyngor yng Nghymru, dim ond chwech sydd â chofrestr gyhoeddus ar gael ar-lein ar hyn o bryd, gyda dau arall yn cyhoeddi datganiad 'dim cofnodion', a thri yn cynnig cofrestr ar gais yn unig. Nid yw un ar ddeg o awdurdodau yn darparu unrhyw wybodaeth gyhoeddus am safleoedd halogiad o gwbl. Yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru, ymatebodd pedwar o'r un ar ddeg hyn gyda gwybodaeth am halogiad a ddylai fod mewn cofrestr gyhoeddus - ac yn bryderus, nododd un cyngor, a oedd yn datgan bod eu cofrestr yn wag ar-lein, 18 o safleoedd.

Lle mae cofrestrau cyhoeddus ar gael ar-lein, mae rhywfaint o amrywiad yn eu hansawdd a'u defnyddioldeb. Mae pedwar cyngor yn darparu manylion llawn am safleoedd o dan benawdau sy'n gysylltiedig â'r Deddf, tra bod dau yn darparu rhestrau o ddogfennau sy'n anodd eu llywio yn unig. Diffinnir y cysyniad o 'safle' yn anghyson - weithiau gan nifer yr eiddo a gynlluniwyd ar gyfer y safle neu sy'n meddiannu'r safle ar hyn o bryd, ac mewn achosion eraill gan nifer yr eiddo neu'r darnau o dir sy'n gyfrifol am yr halogiad. Mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth Cyfeillion y Ddaear, gwnaeth rhai cynghorau yn glir hefyd mai eu harfer yw dileu safleoedd unwaith y cânt eu hystyried wedi'u hadfer.

Gwybodaeth leol ar gyfer Sir Ddinbych

- Nid oes gan Sir Ddinbych Strategaeth Tir Halogedig ar gael ar-lein.
- Mae gan Sir Ddinbych gofrestr gyhoeddus ar-lein o safleoedd halogedig, sy'n cynnwys dim cofnod.
- Mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth gan Gyfeillion y Ddaear, cadarnhaodd y cyngor y ffigur hwn.

- Ni chanfu ein hadolygiad o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am halogiad posibl yn Sir Ddinbych unrhyw ddata pellach ar nifer na lleoliad safleoedd posibl.

Beth sydd angen digwydd nesaf

Ers dros ganrif, mae echdynnu, cynhyrchu a llygredd wedi halogi ein tir, gan beryglu iechyd y cyhoedd a gwenwyno ecosystemau'n araf. Ac eto ers degawdau mae maint y niwed posibl wedi bod yn glir, a llwybrau i lanhau'r difrod wedi'u deall yn dda. Felly mae'n annerbyniol bod miloedd o safleoedd ledled Cymru, o bosibl, yn dal i fod yn wenwynig, a bod y cyhoedd yn dal i fethu â chael mynediad at wybodaeth am y risg na dibynnu ar y systemau a gynlluniwyd i'w liniaru.

Rydym angen:

- **Ymchwiliad cyhoeddus annibynnol i asesu maint ac effaith tir halogedig yng Nghymru** ac adolygu effeithiolrwydd y drefn tir halogedig bresennol.
- **Cofrestr ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd o safleoedd tir halogedig ledled Cymru**, yn cynnwys safleoedd sy'n cael eu harchwilio.
- **Deddfwriaeth a rheoleiddio cryfach ar lefel genedlaethol, i sicrhau bod y drefn tir halogedig yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac i fynd i'r afael â llygredd hanesyddol.** Dylai hyn gynnwys diwygio canllawiau statudol 2012 i orfodi awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau a diwygio'r canllawiau ar dir halogedig ym Mholisi Cynllunio Cymru. Dylai'r Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Bioamrywiaeth sydd ar ddod hefyd gynnwys mesurau i fynd i'r afael â llygredd etifeddol o orffennol diwydiannol Cymru.

Ar lefel y DU, rhaid i'r llywodraeth gefnogi ac ariannu Awdurdodau Lleol Cymru'n briodol, fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau i nodi ac adfer tir halogedig. Dylai hyn gynnwys cyflwyno rhaglen ariannu briodol a/neu adfer y rhaglen ariannu cyfalaf ar gyfer safleoedd rhan 2a, ymestyn cynllun Cronfa Rhyddhau Tir Llwyd (BLRF) Lloegr yn unig i Gymru, a chlustnodi unrhyw gyllid a ddarperir o dan Fformiwla Barnett.

Am ragor o wybodaeth: kirsty.luff@foe.co.uk